

Cyngor Sir Ddinbych

Adroddiad Monitro Blynyddol 2016-2017

1. Cyflwyniad

- 1.1 Tîm Gweithredol Corfforaethol y Cyngor sydd â'r cyfrifoldeb strategol dros yr iaith Gymraeg yng Nghyngor Sir Ddinbych. Y Cyfarwyddwr Arweiniol yw Nicola Stubbins, gyda'r Cynghorydd Huw Jones yr Aelod Arweiniol gwleidyddol â chyfrifoldeb dros y Gymraeg.
- 1.2 Arweinydd Tîm Cyfathrebu a Rheoli Ymgyrchu sydd â chyfrifoldeb gweithredol dros faterion y Gymraeg, gyda rôl arall i Ddatblygu'r Iaith Gymraeg yn strategol o fewn y Cyngor i edrych ar weithredu'r Safonau Cymraeg a chydlynu gyda'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth.
- 1.3 Mae'r Grŵp Aelodau yn monitro datblygiadau'r iaith Gymraeg sydd â'r grym i wneud argymhellion i'r Cyngor Llawn a/neu'r Cabinet. Bydd y Grŵp hwn yn dod i rym yn yr Haf, er bod ei Gylch Gorchwyl wedi'i gymeradwyo gan y Cyngor Llawn.
- 1.4 Prif ffocws y Cyngor yn ystod 2016/17 oedd paratoi ar gyfer a gweithredu'r Safonau Cymraeg, gyda chyfathrebu rheolaidd yn hanfodol. Dosbarthwyd cyfres o negeseuon cyfathrebu i staff; cyflwynwyd sesiwn briffio i'r holl gynghorwyr am y Safonau a rhoddodd y swyddogion sy'n gyfrifol am yr iaith Gymraeg gyflwyniadau i lawer o gyfarfodydd tîm rheoli, cyfarfodydd Uwch Dîm Arweinyddiaeth, Briffio Cabinet a'r Cyngor Staff.
- 1.5 Mae'r Prif Weithredwr hefyd wedi recordio negeseuon fideo i staff, gan amlygu pwysigrwydd cydymffurfio â'r iaith Gymraeg. Mae manylion datblygiadau eraill yn yr adran nesaf.
- 1.6 Er bod y Cyngor eisoes yn cydymffurfio â mwyafrif y Safonau fel rhan o'i Gynllun Iaith Gymraeg blaenorol, roedd y Safonau yn gyfle i atgyfnerthu'r gofynion a sicrhau cydymffurfiaeth.
- 1.7 Yn ogystal â'r Safonau Iaith Gymraeg newydd, mae'r Cyngor wedi parhau i ymateb yn gadarnhaol i'r Fframwaith Mwy Na Geiriau â'r Grŵp Strategaeth Cymraeg mewn Addysg (mae diweddariad ar y meysydd gwaith hyn i'w gweld yn nes ymlaen yn y ddogfen hon).

2. Prif ddatblygiadau yn ystod y flwyddyn

Hyrwyddwyr yr Iaith Gymraeg:

Mae gan bob gwasanaeth Hyrwyddwr sy'n mynychu cyfarfodydd chwarterol i drafod datblygiad mewnol yr iaith. Mae'r Grŵp yn edrych ar amrywiaeth eang o faterion, gan gynnwys cyfleoedd hyfforddiant, hapwiriadau ar gydymffurfio â'r Safonau, cyfleoedd i wella diwylliant dwyieithog y sefydliad a gweithredu fel ein llygaid a'n clustiau o fewn gwasanaethau.

Mae'r aelodau hefyd yn gweithio fel cyfaill beirniadol i'r tîm corfforaethol sy'n arwain ar weithredu polisi'r iaith Gymraeg.

Grŵp Strategol y Gymraeg i Aelodau:

Mae grŵp newydd wedi'i sefydlu yn Sir Ddinbych i fonitro cynnydd datblygu'r iaith Gymraeg. Bydd y Grŵp yn cael ei arwain gan Aelod ac yn cynnwys 11 aelod fydd yn cynrychioli'r amrywiol grwpiau gwleidyddol. Bydd swyddogion yn cael eu galw i roi diweddariadau fel bo'n briodol.

Bydd gan y Grŵp hwn y pwerau i wneud argymhellion i'r Cabinet a chyrrff craffu eraill.

Strategaeth Iaith Gymraeg:

Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu strategaeth ar sut mae'n bwriadu hyrwyddo'r iaith dros y pum mlynedd nesaf. Mae'r Strategaeth wedi'i thorri lawr yn feysydd amlwg: Plant a Phobl Ifanc (gan gynnwys addysg a gwaith ieuenctid); Busnes a'r Economi; Cymunedau; Gweinyddu Mewnol o fewn y Cyngor a datblygiad strategol yr iaith Gymraeg yn Sir Ddinbych.

Mae'r strategaeth hon yn cael ei monitro gan Hyrwyddwyr yr Iaith Gymraeg a Grŵp Strategol y Gymraeg i Aelodau.

Sesiynau Galw Heibio:

Mae cyfres o sesiynau galw heibio wedi eu cynnal ar gyfer staff ar draws y sir i ddod a thrafod materion a phryderon am yr iaith Gymraeg, yn ogystal â chynghori ar sut y gallant gryfhau'r iaith yn eu gwasanaethau eu hunain.

Asesiad Iechyd a Lles:

Mae'r Cyngor wedi cyflwyno asesiad Iechyd a Lles sy'n gofyn i bob adran ystyried effeithiau (cadarnhaol, negyddol neu niwtral) unrhyw benderfyniad polisi ar yr iaith Gymraeg. Mae hyn wedi bod mewn ymateb uniongyrchol i'r Safonau.

Mae hwn bellach wedi'i gynnwys yn y broses gwneud penderfyniadau ac mae pob gwasanaeth yn defnyddio'r templed newydd hwn.

Prosiect Cymraeg mewn Busnes:

Cynhaliwyd prosiect peilot mewn tair tref allweddol, gyda'r nod o weithio gyda busnesau lleol, darparu cyngor a hyfforddiant ar ddefnyddio'r iaith Gymraeg fel rhan o'u gwaith beunyddiol. Mae hyn yn cynnwys hyfforddiant cyfryngau cymdeithasol, marchnata dwyieithog, yr angen am ofal cwsmer dwyieithog a defnyddio'r cyfle i ddefnyddio'r iaith i ehangu eu busnes a'u maint elw.

Gweithio mewn Partneriaeth:

Mae'r Cyngor yn bartner gweithgar ar Fforwm Iaith Sir Ddinbych. Mae'n cynnig llety i gyfarfodydd chwarterol y Fforwm ac yn cymryd ei dro i gadeirio'r cyfarfodydd.

Mae'n darparu diweddariadau chwarterol ar ddatblygiad strategol yr iaith Gymraeg, cyfleoedd ar gyfer hyfforddiant a datblygu ac

mae'n gweithio'n agos gyda sefydliadau eraill i hybu cydweithio a gweithio agosach.

Mae'r Cyngor yn cyfarfod yn rheolaidd gyda Menter Iaith Sir Ddinbych i edrych ar ffyrdd o gydweithio a darparu grant blynyddol i'w cynorthwyo gyda'u gwaith.

Mae yna waith partneriaeth pellach gyda Choleg Cambria, sy'n darparu gwersi Cymraeg i staff y Cyngor.

Fforwm Dwyieithog Aelodau:

Roedd y Fforwm wedi cyfarfod tair gwaith yn ystod 2016/17 i edrych ar faterion iaith Gymraeg. Mae'r prif faterion a drafodwyd wedi cynnwys adolygiad o'r gwasanaeth cyfieithu corfforaethol, polisi enwi strydoedd a diweddariadau ar weithredu Safonau'r Gymraeg.

3. Dangosyddion Iaith Gymraeg

Isod mae ymateb i'r dangosyddion iaith Gymraeg a adroddwyd arnynt yn lleol.

<p>Nifer a % y swyddi yn y brif dderbynfa, canolfan gyswllt neu siop un alwad a nodwyd gyda'r Gymraeg yn hanfodol a % y rhai a lenwyd gan siaradwyr Cymraeg.</p>	<p>Mae yna 7 aelod o staff yn y Ganolfan Alwadau / Prif Dderbynfa – 4 o'r rhain yn siarad Cymraeg.</p> <p>Mae dau aelod o staff rhan amser hefyd yn gweithio i'r gwasanaeth. Mae'r ddau yn siarad Cymraeg.</p> <p>Mae 66% o staff yn Siop Un Alwad y Cyngor yn siarad Cymraeg.</p>
--	--

<p>% o sampl o gcontractau sydd wedi cael eu monitro sy'n cydymffurfio â gofynion y cynllun iaith.</p>	<p>Cyfrifoldeb gwasanaethau yw sicrhau bod eu contractau yn cydymffurfio â gofynion y cynllun iaith. Mae 100% o gcontractau wedi cael eu monitro, yn unol â chanllawiau corfforaethol.</p>
<p>Nifer o gwynion a dderbyniwyd sy'n ymwneud â gweithredu'r cynllun iaith a % y cwynion sydd wedi derbyn sylw yn unol â safonau corfforaethol y sefydliad.</p>	<p>Cofnodwyd pum cwyn ffurfiol mewn perthynas â'r iaith Gymraeg gan y Cyngor.</p> <p>Cydymffurfiwyd â phob un o'r cwynion (100%) o fewn yr amserlenni corfforaethol.</p>
<p>Nifer a % o staff (siaradwyr Cymraeg a dysgwyr) sydd wedi derbyn hyfforddiant iaith Gymraeg i lefel o allu penodol.</p>	<p>17 unigolyn ym Mlwyddyn 1. 8 unigolyn ym Mlwyddyn 2. 10 unigolyn ym Mlwyddyn 4.</p> <p>Mae cyfanswm o 35 unigolyn wedi bod ar gwrs hyfforddiant ffurfiol yn 2016/17, trwy Goleg Cambria.</p>
<p>Y nifer a chanran y staff yng ngwasanaethau'r sefydliad sy'n gallu siarad Cymraeg</p> <ol style="list-style-type: none"> 1) Yn ôl adrannau gwasanaeth 2) Yn ôl graddfa'r swydd 3) Fesul gweithle 	<p>Mae'r wybodaeth yn cael ei chasglu'n flynyddol gan y Cyngor ar ei system Trent ac mae'r canlyniadau i'w gweld yn Atodiad 1.</p>

Safonau'r Gymraeg

Mae Safonau'r Gymraeg yn disgwyl i'r Cyngor adrodd yn ei adroddiad blynyddol ar nifer o ddangosyddion perfformiad allweddol. Mae'r wybodaeth wedi'i chrynhai isod.

Rhestr o gamau a ymgwymerwyd i gydymffurfio â safonau darparu gwasanaeth.

- Rydym wedi darparu gohebiaeth i staff am ymateb i ohebiaeth, trefnu cyfarfodydd ac ateb y ffôn.
- Rydym wedi sicrhau bod holl staff yn cynnig trosglwyddo galwad i siaradwr Cymraeg wrth i bobl gysylltu â'r Cyngor.
- Rydym wedi cyflwyno un rhif ffôn ar gyfer prif switsfwrdd y Cyngor, sy'n rhoi'r opsiwn i bobl ddewis Gwasanaeth Iaith Gymraeg.
- Rydym wedi darparu geiriad i staff i'w gynnwys mewn templedi llythyrau, gan gynnig cyfle i drigolion ofyn am ohebiaeth yn Gymraeg yn y dyfodol.
- Rydym wedi rhoi neges wedi'i recordio ar ffôn y Ganolfan Gyswllt i nodi bod y llinell Gymraeg ar gael.
- Rydym wedi hysbysu staff sy'n trefnu cyfarfodydd cyhoeddus y dylai pob cyhoeddusrwydd/gwahoddiad fod yn y Gymraeg, dylid trefnu cyfieithwyr ar y pryd ar gyfer cyfarfodydd cyhoeddus ac y dylai trefnwyr cyfarfodydd cyhoeddus atgoffa pobl ar ddechrau cyfarfodydd y gallant gyfrannu yn Gymraeg.
- Bydd yr holl ddogfennau a gynhyrchir ar gyfer y cyhoedd yn ddwyieithog, gan gynnwys deunydd hyrwyddo a dogfennaeth arddangos.
- Mae'r rhyngwyneb a dewislenni ar bob tudalen ar ein gwefan yn ddwyieithog.

- Mae pob ffurflen grant a dderbynnir yn y Gymraeg yn derbyn ymateb yn y Gymraeg

Rhestr o gamau a gymerwyd i gydymffurfio â Safonau Gweithredol yn ystod 2016/17

- Rydym wedi cynhyrchu polisi ar ddefnyddio'r Gymraeg yn fewnol er mwyn hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r iaith ac mae'r ddogfen hon wedi cael ei chyhoeddi ar ein mewnwyd.
- Rydym wedi cyflwyno proses AD lle gofynnir i'r holl staff a ydynt yn dymuno cael eu contract cyflogaeth yn Gymraeg.
- Rydym wedi gofyn i bob aelod o staff a ydynt yn dymuno cael gohebiaeth ar bapur yn ymwneud â'u cyflogaeth ac sydd wedi'i chyfeirio atynt yn bersonol (yn Gymraeg).
- Rydym wedi gofyn i bob aelod o staff a ydynt yn dymuno derbyn gohebiaeth ar bapur yn ymwneud â'u hanghenion neu ofynion hyfforddiant yn y Gymraeg.
- Rydym wedi gofyn i bob aelod o staff a ydynt yn dymuno cael dogfennau sy'n amlinellu eu hamcanion perfformiad yn Gymraeg a byddwn yn darparu dogfennau yn Gymraeg os mai dyna yw eu dymuniad.
- Rydym wedi gofyn i bob aelod o staff a ydynt yn dymuno cael dogfennau sy'n amlinellu eu cynllun gyrfa yn Gymraeg a byddwn yn darparu dogfennau yn Gymraeg os mai dyna yw eu dymuniad.
- Rydym wedi gofyn i bob aelod o staff a ydynt yn dymuno derbyn ffurflenni sy'n cofnodi ac yn awdurdodi gwyliau blynyddol, absenoldeb o'r gwaith ac oriau gwaith hyblyg yn y Gymraeg.
- Mae'r staff yn gallu gwneud cwynion yn Gymraeg drwy'r drefn gwyno gorfforaethol ac mae staff yn gwybod am hyn.
- Mae Gweithdrefn Gwyno Corfforaethol y Cyngor eisoes yn nodi y gall staff wneud cwyn yn y Gymraeg ac mae ganddynt hawl i ymateb i gŵyn a wnaed amdanynt yn Gymraeg. Mae'r staff wedi cael gwybod am yr hawl honno. Bydd y staff yn cael cynnig cyfle i gynnal unrhyw gyfarfodydd ynglŷn â chwynion a wneir yn eu herbyn yn y Gymraeg (gyda neu heb ddefnyddio cyfieithydd).

- Bydd unrhyw gofnod o benderfyniad sy'n ymwneud â chwyn yn erbyn aelod o staff yn cael ei gyhoeddi yn y Gymraeg (a bydd unrhyw gyfarfod dilynol yn cael ei gynnal yn y Gymraeg).
- Mae ein polisïau Adnoddau Dynol yn datgan y gall staff ymateb yn Gymraeg i unrhyw honiadau a wneir yn eu herbyn.
- Mae meddalwedd cyfrifiadurol ar gyfer gwirio sillafu a gramadeg wedi cael ei ddarparu i bob aelod o staff sy'n siarad neu'n dysgu Cymraeg a darperir rhyngwynebau Cymraeg ar gyfer meddalwedd (megis Microsoft Word) pan fo staff yn dymuno cael hynny.
- Rydym wedi cyfieithu'r testun ar hafan y fewnrwyd i'r Gymraeg.
- Mae unrhyw dudalennau ar y fewnrwyd sydd â thudalennau cyfatebol yn y Gymraeg yn cynnwys dolen uniongyrchol i'r dudalen Gymraeg.
- Mae tudalennau wedi cael eu creu ar y fewnrwyd sy'n darparu gwasanaethau a deunydd cefnogi i hyrwyddo'r iaith Gymraeg a chynorthwyo staff wrth ddefnyddio'r iaith Gymraeg.
- Mae'r rhyngwyneb a dewislenni ar y fewnrwyd yn Gymraeg.
- Mae'r Cyngor wedi cynnal asesiad o sgiliau iaith Gymraeg gweithwyr trwy hunanasesiad.
- Mae'r Cyngor yn hyrwyddo cyfleoedd yn ystod oriau gwaith i weithwyr ddilyn cyrsiau Cymraeg sylfaenol.
- Mae'r Cyngor yn darparu cyfleoedd i staff sydd eisiau gwella eu hyfforddiant Cymraeg sylfaenol drwy gynnig hyfforddiant pellach.
- Mae'r Cyngor wedi datblygu modiwl e-ddysgu, er mwyn codi ymwybyddiaeth staff o'r iaith Gymraeg.
- Darperir gwybodaeth i godi ymwybyddiaeth o'r iaith Gymraeg i bob aelod o staff newydd.
- Rydym wedi darparu geiriad i staff ddefnyddio ar eu llofnod e-bost, i hysbysu pobl a ydynt yn siaradwyr Cymraeg rhugl neu'n ddysgwyr.

Sgiliau leithyddol Staff

Isod mae'r wybodaeth a gynhelir ar hyn o bryd gan y Cyngor. Mae'r wybodaeth yn cael ei bwydo yn ôl i wasanaethau, i ganiatáu i Benaethiaid Gwasanaeth ddatblygu eu Cynlluniau Gweithlu.

**Ydych chi'n siarad
Cymraeg?**

	Cyfanswm
0 - Ddim o gwbl	915
1 – Ychydig	389
2 - Cymedrol	128
3 – Gweddol rhugl	53
4 – Rhugl	136
Anhysbys	2577
Cyfanswm	4198

**Allwch chi
wrando/ddeall
Cymraeg?**

	Cyfanswm
0 - Ddim o gwbl	958
1 – Ychydig	369
2 - Cymedrol	150
3 – Gweddol rhugl	64
4 – Rhugl	142
Anhysbys	2515

Cyfanswm	4198
----------	------

**Allwch chi ddarllen
Cymraeg?**

	Cyfanswm
0 - Ddim o gwbl	1106
1 – Ychydig	327
2 - Cymedrol	133
3 – Gweddol rhugl	49
4 – Rhugl	128
Anhysbys	2455
Cyfanswm	4198

**Allwch chi ysgrifennu
yn Gymraeg?**

	Cyfanswm
0 - Ddim o gwbl	1273
1 – Ychydig	287
2 - Cymedrol	105
3 – Gweddol rhugl	41
4 – Rhugl	114
Anhysbys	2378
Cyfanswm	4198

Diweddariad ar weithredu Mwy Na Geiriau (2016-17)

Rhan hanfodol o unrhyw ddarpariaeth gofal ac sy'n rhan allweddol o 'asesu anghenion unigol', yw'r angen i sicrhau bod unigolion yn gallu derbyn y gwasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg a bod y gwasanaeth yn canolbwyntio ar y claf ac yn galluogi'r unigolyn i ddeall y gwasanaethau a gynigir yn llwyr.

Mae 'Fframwaith Mwy Na Geiriau' y Llywodraeth a weithredir yn Sir Ddinbych yn amlinellu'r gofyniad i ymateb yn llawn i'r disgwyliad hwn, ac yn benodol i'r angen ar gyfer y 'Cynnig Rhagweithiol' a sicrhau bod siaradwyr Cymraeg yn cael eu trin gyda pharch trwy ofyn beth yw'r iaith a ffefrir ganddynt a gweithredu ar hyn. Mae gwneud 'Cynnig Rhagweithiol' yn golygu peidio tybio bod holl siaradwyr Cymraeg yn siarad Saesneg pryn bynnag, mae hefyd yn ymwneud â newid diwylliant sy'n tynnu'r cyfrifoldeb oddi ar yr unigolyn i ofyn am wasanaeth trwy gyfrwng y Gymraeg.

O fewn Sir Ddinbych mae'r Pwynt Mynediad Sengl a'r Porth Plant wedi recriwtio staff sy'n siarad Cymraeg ac yn sicrhau bod y 'Cynnig Rhagweithiol' yn amlwg yn y pwynt cyswllt cyntaf (e.e. dewis iaith a ffefrir ar y ffôn). Yn ogystal mae angen iaith unigolyn yn cael ei gofnodi ar PARIS ar y pwynt atgyfeirio, yn ystod y cam asesu ac adolygu.

Mae enghreifftiau ychwanegol o arfer da o ran gweithredu'r Fframwaith Mwy Na Geiriau yn cynnwys:

- Mae eitemau rheolaidd am yr iaith Gymraeg, adnoddau a gwybodaeth am amrywiol gyrsiau hyfforddi am ddim (Ymwybyddiaeth iaith a'r 'Cynnig Rhagweithiol') yn cael eu cynnwys yn newyddlen Partneriaeth Datblygu Gweithlu Gofal Cymdeithasol a ddosberthir i'r holl ddarparwyr yn Sir Ddinbych. Mae hyn wedi cynnwys gwybodaeth am y Diwrnod Shwmai a Dydd

Miwsig.Mae gwybodaeth am yr iaith Gymraeg a'r Cynnig Rhagweithiol hefyd wedi'i chynnwys yn y cyfarfod croesawu staff newydd sy'n ymuno â'r Adran ac i fyfyrwyr Gwaith Cymdeithasol yn ystod cyfarfod sefydlu. Yn ogystal, rhoddwyd cyflwyniad ar y "Cynnig Rhagweithiol" i dros 300 o staff o'r Gwasanaethau Cymorth Cymunedol. Mae AD Corfforaethol yn mapio sgiliau iaith staff CSDd ar I-Trent ar hyn o bryd ac mae'r proffil cymuned iaith Gymraeg wedi'i baratoi ar gyfer CSDd (diweddarwyd gan yr Adroddiad Asesu Poblogaeth a gynhyrchwyd o dan adran 14 o'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.

- Mae cynllun cyfaiil a sesiwn anffurfiol "Siarad siop a phaned" wedi'i gyflwyno i gynnig cefnogaeth ychwanegol rhwng gwersi i gynyddu hyder staff i siarad Gymraeg o fewn sir Ddinbych.

Tystiolaeth ychwanegol

Mae ein holiadur profiad y cwsmer yn monitro a yw pobl wedi derbyn gwasanaethau yn eu dewis iaith. Mae'r canlynol wedi'i dynnu o'r dadansoddiad o'r arolwg 'Dweud eich dweud' sy'n ymwneud â'r cwestiwn: 'Roeddwn yn gallu cyfathrebu yn yr iaith a ffefir gennyf'.

Roedd 424 o ymatebwyr wedi ateb y cwestiwn hwn,99% yn gallu cyfathrebu yn eu dewis iaith.

e.

C9 - Roeddwn yn gallu cyfathrebu yn yr iaith a ffefir gennyf.		
Oeddwn neu weithiau	421	99%
Na	1	0%
Ddim yn gwybod	2	1%
Cyfanswm a gwblhawyd	424	

Diweddariad ar y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg.

Mae'r cynllun ar gyfer y cyfnod 2014 – 2017 nawr wedi dod i ben ac mae'r cyflawniadau wedi eu crynhoi isod:

- Mae nifer y disgyblion 7 oed sy'n derbyn addysg cyfrwng Cymraeg wedi cynyddu o 262 o ddisgyblion (24% o'r garfan) yn 2013/14 i 303 disgybl (27% o'r garfan) yn 2016/17. I gefnogi'r cynnydd hwn, mae prosiectau cyfalaf wedi eu cwblhau yn Ysgol Twm o'r Nant, Ysgol y Llys ac Ysgol Bro Dyfrdwy sydd wedi cynyddu capasiti a chael gwared ar y defnydd o lety symudol. Yn ogystal, mae prosiectau ad-drefnu ysgolion wedi'i gwblhau gan sefydlu Ysgol Carreg Emlyn yn 2014 a oedd yn caniatáu gwell defnydd o'r lleoedd ysgol presennol yn yr ardal i'r gorllewin o Ruthun. Roedd y targed i gynyddu'r ganran o ddysgwyr Blwyddyn 9 sydd wedi eu hasesu yn y Gymraeg (Iaith gyntaf) i 21% wedi'i gyflawni ddwy flynedd yn gynnar erbyn 2015/16.
- Roedd y targed o 18% o ddysgwyr 14-16 oed i astudio ar gyfer cymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg erbyn 2017 hefyd wedi'i gyflawni dwy flynedd yn fuan.
- Mae cyrhaeddiad Cymraeg iaith gyntaf wedi gwella yn ystod pob cyfnod allweddol dros y cyfnod 2014/17. Mae'r gwelliant mwyaf wedi digwydd yn Cyfnod Allweddol 2 gyda 90.6% yn cyflawni lefel 4+ yn 2016 o'i gymharu ag 85.1% yn 2014.

Mae Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg ar gyfer y cyfnod 2017-2020 wedi'i baratoi a chynhaliwyd ymgynghoriad yn yr hydref 2016. Rydym yn aros i Lywodraeth Cymru a Chabinet Cyngor Sir Ddinbych gymeradwyo'r cynllun.